

Monitro atalyddion alffa TNF mewn arthritis gwynegol yn therapiwtig

10 Gorffennaf 2019

Mae NICE wedi asesu profion imiwnoamsugol ensym-gysylltiedig (ELISA) ar gyfer monitro atalyddion alffa ffactor necrosis tiwmor (TNF) mewn arthritis gwynegol er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid eu defnyddio. Y profion hyn yw Promonitor, IDKmonitor, LISA-TRACKER, RIDASCREEN, MabTrack a phrofion a ddefnyddir gan Wasanaethau Diagnostig Sanquin.

Mae NICE wedi dweud nad oes digon o dystiolaeth i argymhell defnyddio'r profion hyn yn rheolaidd yn y GIG. Mae angen gwneud rhagor o ymchwil i'w heffeithiolrwydd clinigol.

Defnyddir atalyddion alffa TNF i drin arthritis gwynegol difrifol nad yw wedi ymateb i gyffuriau eraill. Gall profion ELISA fesur lefelau cyffuriau a gwrthgyrff yn y gwaed er mwyn helpu i wneud penderfyniadau am driniaeth.

ISBN: 978-1-4731-7469-6